# RÔL CYMUNEDAU A CHYSYLLTIADAU MEWN CYNGOR CYFREITHIOL AR LES CYMDEITHASOL AR YNYS MÔN:

# CRYNODEB GWEITHREDOL AC ARGYMHELLION


**AWDURON YR ADRODDIAD:**

Dr Sarah Nason (Prifysgol Bangor) a Dr Sara Closs-Davies (University of Manchester)

**TÎM YMCHWIL:**

Dr Peter Butcher a Sarah Worth (Prifysgol Bangor); Lindsey Poole and Faith Osifo (UK Advice Services Alliance); Dr Lorien Jasny and Susanne Hughes (University of Exeter); Dr Susanne Martikke (GMCVO)



Design by Gingerfish Design - January 2025

# Diolchiadau

Ariannwyd y prosiect hwn gan gydweithrediad yr Academi Brydeinig a Sefydliad Nuffield ar Deall Cymunedau. Mae Sefydliad Nuffield yn ymddiriedolaeth elusennol annibynnol gyda chenhadaeth i hybu lles cymdeithasol. Mae'n ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, yn bennaf mewn Addysg, Lles a Chyfiawnder. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Cyngor Biofoeseg Nuffield, Sefydliad Ada Lovelace ac Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. Mae'r Sefydliad wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron a fynegir ac nid o reidrwydd y Sefydliad. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.nuffieldfoundation.org.

Yr Academi Brydeinig yw academi genedlaethol y DU ar gyfer y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol. Mae'n ysgogi'r disgyblaethau hyn i ddeall y byd a llunio dyfodol mwy disglair. O ddeallusrwydd artiffisial i newid yn yr hinsawdd, o adeiladu ffyniant i wella lles – dim ond trwy ddyfnhau mewnwelediad i bobl, diwylliannau a chymdeithasau y gellir datrys heriau cymhleth heddiw. Mae mynd i'r afael â heriau cymhleth o ddeallusrwydd artiffisial i newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ddyfnhau ein dealltwriaeth o bobl, diwylliannau a chymdeithasau. Mae'r Academi'n buddsoddi mewn ymchwilwyr a phrosiectau ledled y DU a thramor, yn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn syniadau a dadleuon ffres, ac yn dod ag ysgolheigion, y llywodraeth, busnes a chymdeithas sifil ynghyd i ddylanwadu ar bolisi er budd pawb. Ceir rhagor o wybodaeth am eu gwaith yn www.thebritishacademy.ac.uk.

Hoffai'r ymchwilwyr ddiolch i bawb sydd wedi rhoi mor hael o'u hamser i gymryd rhan yn ein hymchwil, ni fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl hebddynt. Gyda diolch arbennig i Ned Sharpe (Pennaeth Prosiectau Strategol Cymorth Cyfreithiol, Mynediad at Gyfiawnder, Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU), Bryngwran Cymunedol a'r Iorwerth Arms.

Ariennir gan:

The British Academy

Nuffield Foundation

Tîm ymchwil:

Prifysgol Bangor University

University of Exeter

Manchester 1824 The University of Manchester

advice services alliance

GMCVO Research

# Crynodeb gweithredol ac argymhellion:

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o brosiect ymchwil a oedd yn edrych ar sut mae pobl o wahanol leoliadau a chymunedau'n cael gafael ar gyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol.

Mae cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol yn cynnwys cyngor am hawliau a hawlogaeth pobl mewn meysydd sy'n cynnwys budd-daliadau lles, dyledion, cyflogaeth, tai, mewnfudo, addysg a gofal cymunedol. Mae'r math hwn o gyngor, sy'n aml yn cael ei alw yn gyngor ar hawliau lles cymdeithasol, yn seiliedig ar y gyfraith ond nid oes yn rhaid i gyfreithwyr cymwysedig ei ddarparu. Mae'r galw am gyngor o'r fath ar gynnydd, ond mae capasiti'r sector cynghori yn lleihau ac yn newid i ddarparu mwy o gyngor o bell (dros y ffôn ac ar-lein). Roedd y prosiect hwn yn dadansoddi rôl mudiadau lleol a mudiadau ar sail hunaniaeth o ran helpu pobl i gael gafael ar gyngor ym mhedair ardal yr astudiaeth: Ynys Môn, Rochdale, Hackney, a South Hams. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o Ynys Môn.

Roedd y prosiect wedi ymchwilio i'r canlynol:

- Y berthynas rhwng mynediad at gyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol a chysylltedd cymunedol, anghydraddoldeb/cydraddoldeb a llesiant;
- sut mae agweddau, priodoleddau a chysylltiadau cymunedau yn effeithio ar ymddygiad pobl o ran chwilio am gyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol; a
- mudiadau anffurfiol a ffurfiol lleol, modelau a sianeli darparu cyngor.



*Ynys Môn*

## Dulliau

Defnyddiodd y prosiect amrywiaeth o ddulliau i gasglu data gan fudiadau ac unigolion ar **Ynys Môn** ac ar draws **Gogledd Cymru**. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol, gweithdai gyda darparwyr cyngor, a gweithio gyda chymuned ym Mryngwran, gan gynnwys 39 o gyfweliadau un-i-un. Cafodd pentref **Bryngwran** ei ddewis gan ei fod yn gymuned wledig gyda chyfran uchel o siaradwr Cymraeg. Mae nifer o batrymau sydd i'w gweld yn Ynys Môn yn effeithio ar y pentref, er enghraifft pobl ifanc yn symud o'r ardal a phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae dau brif sector economaidd Ynys Môn yn effeithio ar Fryngwran hefyd, sef twristiaeth ac amaethyddiaeth. Ar ben hynny mae Bryngwran Cymunedol, mudiad sy'n

gwasanaethu'r gymuned leol, yn union y math o gorff a oedd o ddiddordeb i'n hymchwil. Roedd yr ymchwil yn ceisio creu darlun o'r berthynas rhwng mynediad at gyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol a nodweddion cymunedol, o fewn ac ar draws set amrywiol o gymunedau o ran daearyddiaeth, cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol, iaith ac ethnigrwydd.

## RÔL CYMUNEDAU A CHYSYLLTIADAU MEWN CYNGOR CYFREITHIOL AR LES CYMDEITHASOL AR YNYS MÔN

# Y Prif Ganfyddiadau

### Mae cymunedau'n allweddol i gyngor effeithiol: nid yw canoli na digideiddio yn adlewyrchu nac yn diwallu anghenion pobl

**Mae cymunedau a chysylltiadau yn allweddol i wasanaethau cynghori effeithiol. Mae cymunedau lle, diwylliant ac iaith yn hanfodol i ddeall sut mae pobl sy'n profi problemau yn cysylltu â chymorth a chyngor.**

Ar draws ein hymchwil, gwelsom fod cymunedau a chysylltiadau'n allweddol i wasanaethau cynghori effeithiol, a bod cymunedau lle, diwylliant ac iaith yn hanfodol i ddeall sut mae pobl sy'n cael problemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol yn cysylltu â chymorth a chyngor. Mae ein data'n dangos bod y nodweddion cyfun hyn, sef lle mae pobl yn byw, eu diwylliant, eu hiaith a'u hymdeimlad o gymuned, yn ymddangos yn fwy perthnasol i ddeall rhwydweithiau cymdeithasol pobl, ac i ddeall y math o broblemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol mae pobl yn eu hwynebu, yn ogystal â'r hyn mae pobl yn ei wneud pan fyddant yn cael problemau o'r fath, na nodweddion unigol pobl fel oedran, rhywedd, cyflogaeth neu a oes ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd. Roedd y canfyddiad hwn yn arbennig o glir ar Ynys Môn.

**Rhwydweithiau cymdeithasol o bobl ym Mryngwran ar Ynys Môn oedd yr ail fwyaf a'r mwyaf cysylltiedig yn ein hastudiaeth.**

Rhwydweithiau cymdeithasol pobl Bryngwran ar Ynys Môn oedd yr ail fwyaf yn ein hastudiaeth ar gyfartaledd (ar ôl Dartmouth yn South Hams). Ar gyfartaledd, rhwydweithiau cymdeithasol pobl Bryngwran oedd y rhwydwaith cymdeithasol â'r cysylltiadau agosaf â phobl o bedair ardal yr astudiaeth. Roedd rhwydweithiau cymdeithasol pobl Bryngwran yn tueddu i fod yn fwy amrywiol eu maint (nifer y cysylltiadau cymdeithasol) a'u cyfansoddiad (pwy oedd y cysylltiadau cymdeithasol hyn, e.e. ffrindiau, gwaith teulu, cydweithwyr, cymdogion). Roedd rhannu gwybodaeth mewn rhwydweithiau cymdeithasol yn allweddol i geisio cymorth. Roedd natur rhwydweithiau cymdeithasol pobl, a sut roeddent yn eu defnyddio i ofyn am help ac roedd y rhai a gafodd eu cyfweld ym Mryngwran yn fwy tebygol na'r rhai yn ardaloedd eraill yr astudiaeth i ddweud eu bod wedi rhannu eu problemau â rhai a oedd wedi wynebu profiadau tebyg

**Roedd gan gyfweleion ym Mryngwran yr ymdeimlad uchaf o les ar gyfartaledd ar draws ein hastudiaeth ac roeddent, yn gyffredinol, yn hyderus bod pobl yn eu cymuned yn barod i helpu ei gilydd.**

Y rhai a gafodd eu cyfweld ym Mryngwran oedd y lleiaf tebygol ar draws ardaloedd yr astudiaeth hefyd o ddweud eu bod wedi cael problemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a phan roedd problemau roedd nifer y problemau clwstwr lluosog yn is wrth gymharu ag ardaloedd eraill yr astudiaeth. Fodd bynnag, ni ddylid tybio bod hyn yn golygu nad oedd problemau na phroblemau cymhleth yno a'u bod yn effeithio ar y gymuned. Roedd hi'n amlwg bod rhai a gafodd eu cyfweld yn cael problemau yn ymwneud ag arian, yr argyfwng costau byw, problemau wrth gael gafael ar fudd-daliadau, problemau gyda thâl isel, swyddi ansicr, problemau'n dod o hyd i dai addas, problemau iechyd, cael gafael ar ofal cymdeithasol a chymorth anghenion dysgu ychwanegol, a phryderon am gwtogi gwasanaethau cyhoeddus, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael ac effaith y cynnydd mewn costau tanwydd. Roedd ein gweithdai gyda darparwyr cyngor a mudiadau cymunedol ar draws Ynys Môn wedi dangos bod y problemau hyn yn gyffredin mewn llawer o gymunedau ar draws yr ynys.

.

**Roedd pobl ym Mryngwran wedi profi amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys yn ymwneud â chostau byw, budd-daliadau a thai, a gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth.**

Y mudiad/gwasanaeth a gafodd ei enwi amlaf gan y rhai a gafodd eu cyfweld fel un a oedd yn darparu help a chefnogaeth oedd yr Iorwerth Arms (hyb cymunedol a thafarn sy'n berchen i'r gymuned ac yn cael ei rhedeg gan y gymuned). Roedd pobl yn ystyried bod hwn yn "hanfodol" i'r gymuned. Mae'r data'n dangos bod yr Iorwerth Arms yn gweithredu fel hwylusydd i helpu i ehangu, i gryfhau neu i gynnal rhwydwaith cymdeithasol trigolion, ac i rannu gwybodaeth a phrofiadau drwy'r rhwydweithiau hynny. Yn benodol, roedd pobl leol gyda chlwstwr o broblemau cymhleth yn tueddu i fod eisiau lefel uchel o gefnogaeth gymunedol i gael gafael ar gyngor ac yn gyffredinol roeddent yn cael hwnnw. Roedd unigolion allweddol yn y gymuned, fel staff a gwirfoddolwyr yr Iorwerth Arms/Bryngwran Cymunedol, yn hollbwysig o ran adnabod a chefnogi'r rhai a oedd â'r anghenion mwyaf.

**Mae sefydliadau cymunedol fel yr Iorwerth Arms yn helpu pobl i ehangu a chynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol, sydd, ynghyd â chysylltiadau â gwasanaethau, yn chwarae rhan hanfodol wrth atal problemau rhag igwydd neu waethygu.**

Ar draws ein hymchwil, gwelsom fod mudiadau lleol, sy'n sensitif i ddiwylliant, hunaniaeth ac iaith, fel yr Iorwerth Arms ym Mryngwran, yn ganolog i lesiant cymunedol, a bod ganddynt ran hanfodol i'w chwarae o ran atal problemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol rhag digwydd neu waethygu, gan gynnwys drwy ganfod pobl sy'n cael trafferthion.

Mae'r canfyddiadau hyn ynghylch pa mor ganolog yw "cymunedau lle" i rwydweithiau cymdeithasol ac ymddygiad gofyn am gyngor hefyd yn dangos nad yw symud i wasanaethau mwy canolog, o bell (ar-lein neu dros y ffôn), gan gynnwys gwasanaethau cynghori, yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o bobl. Mae ein hymchwil ym Mryngwran yn dangos yn benodol nad yw lefelau cymharol uchel o hyder digidol o reidrwydd yn cyd-fynd â mwy o ddewis o ran gwasanaethau ar-lein. Nid ydynt chwaith yn dangos bod modd chwilio am help na darparu gwasanaethau ar-lein yn effeithiol. Mae adnoddau digidol wedi helpu pobl i gysylltu mewn cymunedau a chael gafael ar gyngor. Ond yn ein hymchwil, roedd y rhain yn dudalennau Facebook cymunedol lleol (lle'r oedd darparwyr cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol ffurfiol yn rhannu gwybodaeth am eu gwasanaethau), grwpiau WhatsApp cymunedol, ac Apiau eraill sydd wedi cael eu creu gan grwpiau cymunedol ar Ynys Môn a oedd yn aml yn gweithredu fel hysbysfyrddau lleol rhithiol. Nid oedd gwybodaeth ar-lein trwy wefannau, yn enwedig y rhai a ddatblygwyd ar lefel Cymru neu'r DU gyfan, i'w gweld yn werthfawr iawn, ac roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn aml yn cael ei hystyried yn rhy generig i fod o gymorth mawr i amgylchiadau unigol pobl sy'n effeithio arnynt yn eu cymuned.

**Mae ein hymchwil ym Mryngwran yn dangos nad yw lefelau cymharol uchel o hyder digidol o reidrwydd yn cyd-fynd â ffafriaeth gynyddol am wasanaethau ar-lein. Nid ydynt chwaith yn dangos bod modd chwilio am help na darparu gwasanaethau ar-lein yn effeithiol.**

**Gall tudalennau Facebook ac Apiau sy'n cael eu creu gan bobl leol a sefydliadau cymunedol fod o fwy o werth i bobl sy'n ceisio cymorth na gwybodaeth ar-lein generig fel yr hyn a ddarperir gan wefannau'r llywodraeth, ac yr oedd yn aml yn gweithredu fel hysbysfyrddau lleol rhithiol.**

Er gwaethaf pwysigrwydd darpariaeth yn y gymuned, roedd thema gref yn ein trafodaethau gyda darparwyr cyngor am duedd llawer mwy tymor hir o ganoli asesiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â lles cymdeithasol, mewn perthynas â budd-daliadau yn benodol, ynghyd â'r canfyddiad o ganoli cyngor. Mae'r canoli hwn yn golygu bod y system gyfan o godi ymwybyddiaeth o hawlogaeth, hawlio hawlogaeth, gofyn am gyngor a herio penderfyniadau yn bellach o lawer oddi wrth yr unigolion a'r cymunedau yr effeithir arnynt. Er bod penderfyniadau cyllido'n ganolog, mae Cronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru yn ddatblygiad sy'n cael ei groesawu'n gyffredinol, ond eu bod angen darparwyr rhanbarthol gwybodus o'r gymunedau lleol. Rydym hefyd yn nodi bod grantiau annibynnol newydd o dan y Gronfa Gynghori Sengl wedi'u darparu i sefydliadau, sydd eu hangen a'u gwerthfawrogi gan y poblogaethau sy'n cael mynediad iddynt mewn ardaloedd lleol, ond lle nad yw modelau cydweithredol a rhyngddisgyblaethol yn briodol. . Fodd bynnag, nid yw'r Gronfa Gynghori Sengl yn rhoi cyllid craidd i fudiadau gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, ac eto mae nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru, sy'n delio ag effeithiau toriadau i'w cyllidebau eu hunain, yn cwtogi ar eu cyfraniadau at gyllid craidd i fudiadau cynghori. Nid yw'n glir sut mae mudiadau i fod i dalu eu costau craidd (sy'n cynnwys hyfforddiant pellach i staff, cyflogau, cynnal a chadw adeiladau, ac offer i gynyddu capasiti'r staff presennol).

**Mae rhai darparwyr cyngor ledled Cymru yn ffeindio hi'n anodd talu eu costau craidd, gan nad yw'r rhain yn dod o dan y Gronfa Gynghori Sengl, ac mae awdurdodau lleol yn lleihau eu cyfraniadau ariannol.**

## Mae'r cymorth iawn ar yr adeg iawn yn allweddol, ond mae gwasanaethau cynghori a mudiadau cymunedol dan bwysau

Un neges allweddol gan ddarparwyr cyngor a mudiadau cymunedol Ynys Môn a Gogledd Cymru, a gafodd ei hadleisio yn ardaloedd eraill ein hastudiaeth, yw bod ar bobl angen "y cymorth iawn ar yr adeg iawn". Mae cymorth a chefnogaeth, yn ogystal â chysylltiadau at gyngor, gan fudiadau cymunedol yn ganolog i hyn. Mae angen i'r cynghorwyr adnabod eu cymunedau, ac yn ddelfrydol dylent eu cynrychioli, a bod â meddwl agored ac yn anfeirniadol, er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol.

**Mae angen i gynghorwyr adnabod eu cymunedau, ac yn ddelfrydol, fod yn gynrychioliadol ohonynt, bod â meddwl agored ac anfeirniadol, i ddarparu gwasanaethau effeithiol.**

Mae ein hymchwil yn canfod bod mudiadau cymunedol a chynghori ar Ynys Môn, ac ar draws Gogledd Cymru, yn wynebu heriau sylweddol. Mae llawer o'r heriau hyn yn codi yn ardaloedd eraill yr astudiaeth. Mae rhai o'r heriau i Gymru yn cael mwy o sylw yn ein adroddiad byr i'r Rhwydwaith Cynghori Rhanbarth Gogledd Cymru (NWRAN).[1] Mae darparwyr cyngor a mudiadau cymunedol ledled Cymru yn wynebu mwy o alw am eu gwasanaethau, ynghyd â llai o gyllid. Er gwaethaf cynlluniau megis y Gronfa Gynghori Sengl, mae cyllid yn dal yn aml yn seiliedig ar gontractau yn hytrach na grantiau, yn gyllid tymor byr, ac yn seiliedig ar brosiectau. Croesewir ymestyn cyfnod cyllido'r Gronfa Gynghori Sengl i dair blynedd (gyda'r potensial am estyniadau pellach) o ran cynaliadwyedd a chyfleoedd i ddarparwyr cyngor gynllunio. Fodd bynnag byddai cyfnod sylfaenol o bum mlynedd hyd yn oed yn well, gydag un a gymerodd ran yn ein hymchwil yn awgrymu y dylai cyllid fod "am genhedlaeth, nid am ychydig flynyddoedd".

Mae ein hymchwil hefyd yn canfod problemau mawr i'r sector cynghori yng Ngogledd Cymru a'r tu hwnt o ran recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr, yn ogystal â heriau i lesiant cynghorwyr. Mae cynghorwyr mewn gwahanol fathau o fudiadau yn gallu bod yn darparu cyngor fel rhywbeth ategol i'w prif swyddogaethau. Cyfyngedig yw capasiti rhywun i barhau i wneud rhywbeth nad yw o bosibl yn rhan ffurfiol o'i swydd, ac mae'n gallu arwain at risg o orweithio.

**Pan fydd pobl yn rhoi cyngor sy'n ychwanegol i'w prif rôl, gall hyn fynd y tu hwnt i'w hyfforddiant ffurfiol, a gall arwain at flinder, hyd yn oed i rheini â hyfforddiant.**

1 *https://swladviceandcommunities.com/ymchwil-cyngor-lles-cymdeithasol-gyda-rhwydwaith-cyngor-rhanbarthol-gogledd-cymru*

## Mae atal yn well na gwella, ond nid yw polisïau Cymru yn cael llawer o effaith benodol eto

Dywedodd darparwyr cyngor a mudiadau cymunedol a gymerodd ran yn ein hymchwil y byddai darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, yn enwedig ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth, yn rhwystro amrywiol anghenion cynghori rhag codi a/neu rhag cyrraedd argyfwng. Cytunwyd ar draws ein hymchwil y gallai fod mwy o fuddsoddiad ar Ynys Môn i atal problemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol rhag digwydd neu waethygu.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth unigryw sy'n berthnasol i atal yng nghyd-destun llesiant; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol weithio, a chydweithio, i wella llesiant Cymru. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio i gynyddu eu cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant. Er mwyn dangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio mewn ffyrdd penodol, mae dwy ohonynt yn arbennig o berthnasol yma, sef: meddwl yn y tymor hir, sef "pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, yn enwedig lle gallai pethau sy'n cael eu gwneud i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith niweidiol yn y tymor hir"; ac atal, "sut gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff, neu amcanion corff arall". Dylai'r dyletswyddau hyn olygu bod atal problemau lles cymdeithasol yn uchel ar agenda polisi cyrff cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, cydnabyddir y bu her o ran gweithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymarferol.[2] O leiaf yng nghyd-destun ein hymchwil, ac wrth gymharu tair ardal ein hastudiaeth yn Lloegr ag Ynys Môn yng Nghymru, nid yw'n glir bod polisïau a chyfraith Cymru am genedlaethau'r dyfodol, cynaliadwyedd a ffyrdd o weithio yn arwain eto at unrhyw adroddiadau o berfformiad cymharol well o ran atal problemau lles cymdeithasol rhag digwydd neu waethygu. O'n hymchwil fodd bynnag gwelir bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol y gofyniad i ddatblygu cynlluniau llesiant yn helpu i adnabod materion ac arferion da llesiant yn lleol yn well, ond nad oes gan gyrff cyhoeddus adnoddau i wneud gwelliannau, gyda thoriadau i gyllidebau'n arwain at ddewisiadau anodd a darparu llai o wasanaethau cyhoeddus.

**O gymharu ein hastudiaethau achos yng Nghymru a Lloegr, nid yw'n glir bod polisïau a chyfraith Cymru ynghylch cenedlaethau'r dyfodol, cynaliadwyedd a ffyrdd o weithio, eto'n arwain at berfformiad cymharol well o ran atal problemau rhag digwydd neu waethygu.**

Thema gyffredin iawn a ddaeth i'r amlwg o'n hymchwil ar draws holl ardaloedd yr astudiaeth oedd gwneud penderfyniadau gwael mewn adrannau penodol o'r llywodraeth, ac yn benodol yn Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU. Mae hyn yn arwain at "alw oherwydd methiant" sef lle mae rhan o'r system lles cymdeithasol yn methu gwneud rhywbeth, neu'n methu ei wneud yn iawn, a bod hynny'n achosi llawer o anghenion cyngor lles cymdeithasol. Ar draws ein hymchwil roedd llawer o enghreifftiau o fudd-daliadau a wrthodwyd neu a dynnwyd yn ôl yn amhriodol, lle cafodd penderfyniadau eu gwrthdroi yn ddiweddarach ar ôl ailystyried neu ar apêl i Dribiwnlys. Yn gyffredinol, nid yw cynlluniau nawdd cymdeithasol, gan gynnwys eu

2 *https://senedd.cymru/media/yjubmisr/cr-ld14223-w.pdf*

gweinyddiaeth, wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn darparu nifer o wahanol gynlluniau lles cymdeithasol sydd wedi tueddu i gael eu hystyried yn rhai ar wahân, tra bod mwy a mwy o alw i'w gweld mewn ffordd fwy cydlynol fel rhan o system fudd-daliadau sy'n datblygu yng Nghymru.[3] Mae Siarter Budd-daliadau Cymru wedi cael ei datblygu, sy'n nodi'r prif egwyddorion i ddylunio ac i gyflwyno taliadau a grantiau sydd wedi cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru.[4] Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi llofnodi ei fod yn cytuno ag egwyddorion y Siarter, ac y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i wireddu'r canlyniadau a nodir yn y Siarter. Bydd hi'n werthfawr parhau i fonitro'r gwaith i gyflawni egwyddorion y Siarter er mwyn deall, yn benodol, sut beth fyddai dull mwy ataliol a thymor hir, ac a oes modd i'r egwyddorion wella faint o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud "yn iawn y tro cyntaf". Yn fwy cyffredinol, gallai datganoli rhagor o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ychwanegol o leiaf yn gallu gwneud iawn am rywfaint o'r galw oherwydd methiant systemig sy'n achosi llawer o broblemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol sy'n wynebu'r unigolion a'r cymunedau yn Ynys Môn a gymerodd ran yn ein hymchwil. Fodd bynnag, byddai datganoli o'r fath yn galw am ddyrannu teg adnoddau ariannol ychwanegol.

**Gallai gwaith parhaus o fonitro gweithrediad y Siarter Budd-daliadau Cymru fod o help i ddeall sut y gallai ymagwedd fwy ataliol edrych, a manteision a heriau datganoli nawdd cymdeithasol.**

## Mae rhwydweithiau cynghori yn bwysig, ond gan fwyaf maent yn wirfoddol, ddim yn gynaliadwy a dylent gynnwys ymgysylltu mwy lleol

**Roedd dirwedd gwasanaethau cynghori ar Ynys Môn yr un gorau o ran cyswllt, ymhlith yr ardaloedd astudiaeth.**

Gwelsom fod y dirwedd gwasanaethau cynghori ar Ynys Môn ymysg y rhai sydd wedi'u cysylltu orau o blith pedair ardal ein hastudiaeth (sef Ynys Môn, Hackney, Rochdale a South Hams). Roedd ein gweithdai a'n hymgysylltiad arall â gweithwyr proffesiynol yn y sector cynghori a'r sector cymunedol wedi dangos bod cysylltiadau gweithio da yn bodoli. Yn gyffredinol roedd dealltwriaeth glir o'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan fudiadau eraill, ac roedd atgyfeiriadau a gwaith partneriaeth effeithiol. Mae Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru (NAN) a'r Rhwydweithiau Cynghori Rhanbarthol (RANs) wedi hwyluso rhannu pryderon cyffredin ac arferion gorau. Maent hefyd wedi gwella ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r materion sy'n wynebu'r sector cynghori. Serch hynny, mae'r gwaith ymgysylltu a phartneriaeth ar Ynys Môn wedi datblygu o'r gwaelod i fyny, drwy waith staff a gwirfoddolwyr ymroddedig. Mae hyn yn dangos, er y gall polisi gael effaith o ran dilysu arferion presennol ymhellach, arweinwyr lleol ac unigolion cymunedol allweddol sy'n hanfodol i wasanaethau cynghori sydd wedi'u rhwydweithio'n dda ac sy'n llwyr werthfawrogi ac yn sensitif i anghenion cymunedau lleol ar Ynys Môn.

3 *https://www.bevanfoundation.org/current-projects/welsh_benefits_system/*

4 *https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/siarter-budd-daliadau-cymru.pdf*

**Mae arweinyddiaeth leol ac unigolion cymunedol allweddol yn hanfodol i wasanaethau cynghori sydd wedi'u rhwydweithio'n dda, ac yn ymddangos gwerthfawrogiad ac yn sensitif i anghenion cymunedau Ynys Môn.**

**Mae Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru a'r Rhwydweithiau Cynghori Rhanbarthol wedi hwyluso rhannu pryderon cyffredin ac arferion gorau, ac wedi gwella ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r materion sy'n wynebu'r sector cynghori.**

Er gwaethaf nodau Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru a'r Gronfa Gynghori Sengl mae dal angen cydlynu ffynonellau cyllid yn well, yn enwedig pan fydd y rhain yn cymell y sector cymunedol i helpu ac i gefnogi gyda phroblemau costau byw, sy'n troi'n waith cynghori. Roedd darparwyr cyngor a mudiadau cymunedol a ymatebodd i'n hymchwil o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu llwyfannau a rhwydweithiau presennol ymhellach i greu un porth, gan mai Llywodraeth Cymru sydd â'r trosolwg mwyaf helaeth o'r dirwedd gwybodaeth a chyngor a'i bod yn gallu defnyddio arferion da sydd eisoes yn bodoli gan osgoi dyblygu.

**Mae angen cydgysylltu ffynonellau cyllid yn well, yn enwedig lle mae'r rhain yn cymell y sector cymunedol i ddarparu cymorth a chefnogaeth gyda phroblemau costau byw, sy'n troi at waith cynghori.**

## Mae cydberthynas rhwng rhwydweithiau cymdeithasol sy'n fwy, sy'n fwy cysylltiedig, ac yn enwedig sy'n fwy amrywiol a datrys problemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol

**Nid maint a chysylltedd rhwydweithiau cymdeithasol yn unig sy'n bwysig ar gyfer datrys problemau, ond hefyd pwy sydd yn rhwydwaith cymdeithasol rhywun, a'r cyfalaf cymdeithasol ac economaidd sydd gan y bobl hyn.**

Ar draws ein hymchwil, gwelsom gydberthynas gadarnhaol rhwng maint rhwydweithiau cymdeithasol a datrys problemau, hynny yw, roedd pobl â rhwydweithiau cymdeithasol mwy rywfaint yn fwy tebygol o ddweud bod eu problemau naill ai wedi cael eu datrys yn rhannol neu'n llawn. Daeth y data hefyd yn agos at ddangos cydberthynas wan rhwng cysylltedd rhwydweithiau cymdeithasol a datrys problemau. Roedd y rhai â rhwydweithiau cymdeithasol mwy cysylltiedig rywfaint yn fwy tebygol o ddweud bod eu problemau wedi cael eu datrys yn rhannol o leiaf. Fodd bynnag, dim ond un wan oedd y gydberthynas hon. Yn fwy cyffredinol, mae ein data'n awgrymu nad dim ond maint a chysylltedd rhwydweithiau cymdeithasol sy'n bwysig i ddatrys problemau, ond pwy sydd yn rhwydwaith cymdeithasol rhywun hefyd, a'r

cyfalaf cymdeithasol ac economaidd sydd gan bobl o'r fath. Er enghraifft, gwelsom y gallai fod cysylltiad rhwng tueddiad uwch y rhai a gafodd gyfweliad ym Mryngwran i gael gweithwyr proffesiynol yn eu rhwydweithiau cymdeithasol, yn ogystal â chael rhwydweithiau cymdeithasol mwy cysylltiedig, a'u gallu i gael gafael ar gyngor cyfreithiol ffurfiol ar les cymdeithasol heb atgyfeirio neu gyfeirio. Mae hybiau cymunedol fel yr Iorwerth Arms yn llefydd canolog lle mae pobl yn mynd i ddatblygu ac i ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol, gan wella eu llesiant a lleihau eu tebygolrwydd o gael problemau. Serch hynny, dim ond drwy weithredu cymunedol mae asedau o'r fath yn cael eu diogelu fwyfwy. Mae'r Iorwerth Arms ei hun yn dafarn sy'n berchen i'r gymuned ac yn cael ei rhedeg gan y gymuned. Cafodd ei hachub rhag cael ei chau a'i dymchwel drwy weithredu cymunedol yn 2015, ac mae bellach yn dafarn nid-er-elw sy'n cael ei rhedeg gan Gyfarwyddwyr di-dâl.

**Mae canolbwyntiau cymunedol yn fannau canolog lle mae pobl yn mynd i ddatblygu ac ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol, gan wella eu lles a lleihau eu tebygolrwydd o brofi problemau, ac eto dim ond trwy weithredu cymunedol y caiff asedau o'r fath eu cadw'n fyw.**

## Mae angen gwella addysg ar hawliau a hawlogaeth, lleihau stigma, a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cynghori

**Mae diffyg ymwybyddiaeth o hawliau a buddion cyfreithiol, gyda'r angen i godi ymwybyddiaeth trwy'r cwricwlwm ysgol, a thrwy ddysgu gydol oes parhaus, yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth.**

Wrth gymharu ag ardaloedd eraill yr astudiaeth, roedd y rhai a gafodd gyfweliad ym Mryngwran yn fwy tebygol o rannu eu problemau'n uniongyrchol â darparwyr cyngor ffurfiol, fel Cyngor ar Bopeth a Gwasanaeth Cyngor ar Hawliau Lles y Cyngor, heb fod angen cam cyfryngol amlwg o gyfeirio neu atgyfeirio. Yn rhannol, mae hyn oherwydd bod y gwasanaethau cynghori hyn yn amlwg iawn, gan gynnwys drwy weithgareddau allgymorth yn yr Iorwerth Arms, a bod pobl yn siarad amdanynt drwy rwydweithiau cymdeithasol. Serch hynny, ar draws ein hymchwil, gan gynnwys ar Ynys Môn, roedd diffyg ymwybyddiaeth o hawlogaeth a hawliau cyfreithiol, gyda'r angen i godi ymwybyddiaeth drwy'r cwricwlwm ysgol, a dysgu gydol oes parhaus, a oedd yn cael ei bwysleisio fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Roedd yr ymwybyddiaeth o fudiadau/gwasanaethau sy'n darparu cymorth a chyngor yn amrywio ym Mryngwran. Nid oedd rhai pobl yn gallu enwi unrhyw fudiadau/gwasanaethau sy'n helpu pobl gyda phroblemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol, er eu bod yn cysylltu hyn yn gyffredinol â'r ffaith nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau o'r fath eu hunain. Roedd pobl hefyd yn teimlo bod aros am broblem cyn dysgu pa fudiadau/gwasanaethau sydd ar gael yn cael effaith negyddol ar y siawns o ddatrys y broblem.

Dywedodd pobl hefyd eu bod wedi teimlo "cywilydd" am eu problemau a'u bod yn teimlo'n "falch" o allu rheoli eu problemau eu hunain yn hytrach na'u rhannu â phobl yn eu rhwydweithiau. Roedd mudiadau cynghori a chymunedol hefyd yn gweld balchder a chywilydd fel rheswm cyffredin pam nad oedd pobl ar Ynys Môn, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig a phobl hŷn, yn chwilio am gymorth gyda phroblemau, gan aros yn aml nes

cyrraedd pwynt argyfwng. Roedd darparwyr cyngor a mudiadau cymunedol yn gwybod am gynllun "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi" Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddarparu drwy Advicelink Cymru. Ei nod yw helpu pobl i ddeall ac i hawlio cymorth ariannol mae ganddynt hawl iddo. Mae ymgyrchoedd fel hyn yn cael rhywfaint o effaith, ond mae stigma'n parhau, ac mae cefnogaeth gymdeithasol gan gymheiriaid yn parhau i fod yn bwysig o ran lliniaru stigma o'r fath.

**Mae ymgyrchoedd fel "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi" yn cael effaith, ond mae cefnogaeth gymdeithasol gan gyfoedion yn parhau i fod yn bwysig i leddfu'r cywilydd a'r stigma canfyddedig sy'n gysylltiedig â chael problemau a cheisio cymorth.**

## Mae cyfyngiadau ar rwydweithiau cymdeithasol a chymunedau cryf o ran mynediad at gyfiawnder

Ar draws ardaloedd ymchwil ein hastudiaeth, fe welsom fod cymunedau yn gallu ac yn darparu llawer o gefnogaeth i bobl, o ran bwyd, nwyddau, dodrefn, cefnogaeth gymdeithasol, cysylltiadau at gyngor a gwasanaethau eraill ac yn y blaen. Fodd bynnag, un o themâu allweddol ein hymchwil oedd bod cefnogaeth gymunedol yn cyrraedd terfyn mewn amgylchiadau lle ceir tri amgylchiad gwahanol ond sy'n aml yn gorgyffwrdd. Y cyntaf yw pan nad oes modd datrys y broblem yn llawn heb gyngor arbenigol gan gynghorwyr ffurfiol cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol sydd mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â hawlogaeth a hawliau cyfreithiol sylfaenol, oherwydd eu hyfforddiant, eu harbenigedd a'u prosesau sicrhau ansawdd; ac, yn gywir neu'n anghywir, oherwydd canfyddiadau (ac mae'n wir i raddau) mai dim ond nhw sydd â'r "pŵer" a'r "safle" o fewn strwythurau a phrosesau'r wladwriaeth i bwyso am orfodi hawliau a hawlogaeth. Ar Ynys Môn, yn gyffredinol gwelsom fod mynediad at ddarparwyr cyngor cyfreithiol arbenigol ar les cymdeithasol yn well nag yn ardaloedd eraill yr astudiaeth, ond bod darparwyr yn dal i wynebu heriau. Yr ail sefyllfa pan fydd cymorth cymunedol yn cyrraedd ei derfyn yw lle mae problemau'n deillio o'r hyn a elwir yn 'galw oherwydd methiant', sy'n cael ei greu drwy weinyddu hawliau neu hawlogaeth yn wael. Y trydydd cyd-destun yw toriadau i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus lleol sy'n achosi heriau sylweddol i bobl mewn cymunedau, a all arwain wedyn at broblemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol.

**Dengys ein hymchwil fod llawer o'r problemau cyfreithiol lles cymdeithasol a wynebir gan bobl mewn cymunedau lleol yn deillio o doriadau difrifol i wasanaethau, a darpariaeth y wladwriaeth sy'n crebachu.**

Yn gyffredinol, mae ein hymchwil yn dangos bod llawer o'r problemau sy'n wynebu pobl mewn cymunedau lleol yn deillio o doriadau cyni mewn gwasanaethau a lleihad yn narpariaeth y wladwriaeth; nid oedd yn ymddangos bod Ynys Môn yn eithriad yma. Dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad nad oedd gan eu hawdurdodau lleol yr amser na'r awydd i helpu yn aml. Roedd yn gyffredin iddynt fod wedi cael problemau gyda thoriadau i iechyd a gofal cymdeithasol, darpariaeth ddarniog ac anghyson o weithwyr cymdeithasol/gwasanaethau gofal cymdeithasol, diffyn darpariaeth i blant a phobl ifanc, aros yn hir i weld meddygon teulu a gwasanaethau gofal iechyd eraill, trafnidiaeth gyhoeddus wael, anawsterau i gael gafael ar dai cymdeithasol priodol,

a gwasanaethau heddlu yn peidio ag ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion diogelwch cymunedol eraill. Roedd Ynys Môn hefyd yn wynebu'r holl heriau hyn. Mae hyn yn awgrymu bod toriadau cyni i wasanaethau, a'r ffaith bod problemau cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol yn cynyddu ac yn gwaethygu o ganlyniad i hynny, yn gymaint o broblem i Gymru ag i Loegr, ac mai cyfyngedig fu effaith mentrau datganoledig hyd yma. Mae ein hymchwil yn canfod nad yw rhwydweithiau cymdeithasol cryfach nac ymddygiad mwy effeithiol o ran gofyn am gyngor yn gallu gwneud iawn am y diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus.

**Ni all rhwydweithiau cymdeithasol cryfach nac ymddygiad ceisio cyngor mwy effeithiol wneud iawn am ddiffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus.**

## Mae angen rhagor o ymchwil gyda chymunedau amrywiol yng Nghymru

Roedd ein gwaith maes uniongyrchol gyda'r cyhoedd yng Nghymru wedi'i gyfyngu i ardal fach, pentref gwledig Bryngwran. Yn ddealladwy, ni ellir cyffredinoli ein canfyddiadau'n ystadegol i Ynys Môn i gyd, nac i Gymru'n ehangach. Wedi dweud hynny, mae dyfnder ein hymchwiliad ansoddol, ynghyd â'r nifer o wahanol ddulliau ymchwil a ddefnyddiwyd (ymchwil desg, gweithdai ac ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau cyngor a mudiadau cymunedol, ac ymgysylltu'n ehangach â rhwydweithiau o fudiadau ledled Cymru) yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer argymhellion polisi ehangach. Fodd bynnag, mae angen amlwg am ragor o ymchwil i edrych ar rôl cymunedau a chysylltiadau mewn cyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gasgliad amrywiol o ardaloedd daearyddol sydd â dwysedd poblogaeth amrywiol, ac ar ardaloedd sy'n profi'r cyfraddau uchaf o amddifadedd, a/neu lle mae cymunedau wedi'u hymyleiddio fel arall.

# Argymhellion

## Mae'r argymhellion canlynol yn ymwneud yn benodol ag Ynys Môn a Chymru

Mae ein hadroddiad llawn yn cynnwys nifer o argymhellion i lywodraethau lleol ac awdurdodau statudol, ac i'r sector cynghori, sydd hefyd yn berthnasol i Ynys Môn.

### LLYWODRAETH CYMRU

1. Nid yw rhwydweithiau cymdeithasol cryfach nac ymddygiad mwy effeithiol o ran gofyn am gyngor yn gallu gwneud iawn am y diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, gyda golwg benodol ar hyrwyddo'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio (yn enwedig atal a meddwl yn y

tymor hir) sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. **[Adrannau 4.1; 5.1; 6.5; 7.3; 7.7]**

2. Mae parhau i gyllido'r Gronfa Gynghori Sengl i'w groesawu ac mae'n ganolog i alluogi pobl i wireddu eu hawliau a'u hawlogaeth lles cymdeithasol. Dylid cynnal y cyllid hwn o leiaf. **[Adrannau 4.1; 4.2; 5.2; 5.5; 7.2; 7.3; 7.4]**

3. Parhau i fonitro ac i werthuso gweithrediad Siarter Budd-daliadau Cymru yn enwedig i bennu effaith gweithredu'r Siarter ar faint o broblemau lles cymdeithasol sy'n codi, a'i heffaith ar sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud 'yn iawn y tro cyntaf' a bod llai o 'alw oherwydd methiant' (lle nad yw rhywbeth yn cael ei wneud neu ddim yn cael ei wneud yn iawn yn y system gweinyddu budd-daliadau). Dysgu gwersi sy'n berthnasol i bosibilrwydd datganoli budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill. **[Adrannau 5.1; 5.6; 7.3; 7.7]**

4. Parhau i gefnogi'r ymgyrch "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi", ac ymgyrchoedd tebyg eraill, a pharhau i weithio ar leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chael problemau lles cymdeithasol a gofyn am gymorth a chyngor gyda'r problemau hyn. **[Adrannau 5.3; 6.7.3; 7.6]**

5. Cefnogi mentrau dysgu gydol oes sy'n ymwneud ag addysg am hawliau a hawlogaeth lles cymdeithasol, a ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac iawn, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu hawliau cymdeithasol ac economaidd ac ymrwymiadau i leihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd. **[Adrannau 5.4; 6.7; 7.3; 7.6]**

6. Rhoi mwy o eglurder am y gwahanol ffynonellau o gyllid datganoledig a heb ei ddatganoli sydd ar gael i'r sectorau cyngor a chymunedau yng Nghymru, yn enwedig lle mae'r rhain yn rhyngweithio ac yn gorgyffwrdd mewn perthynas â darparu cymorth, gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol. **[Adrannau 4; 5.2; 5.4; 5.5; 7.2; 7.3; 7.4]**

7. Parhau i fonitro effaith cyflwyno'r categori, "gwasanaethau cysylltiedig", i'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor, gan gynnwys nifer a math y mudiadau sy'n ceisio (ac yn derbyn) achrediad yn y categori hwn. Ystyried cyllido ymchwil ychwanegol i effaith y categori ychwanegol hwn ar ddarparu gwasanaethau gan y sector Cymunedol, Gwirfoddol, Ffydd a Mentrau Cymdeithasol ochr yn ochr â'r sector cynghori. **[Adrannau 4.1; 4.2; 5.3]**

8. Dysgu o'r gwaith partneriaeth cydweithredol cryf sydd i'w weld rhwng y sector cynghori, yr awdurdod lleol a chymunedau ar Ynys Môn. Cydnabod bod hyn yn cymryd cryn amser i'w ddatblygu a'i fod yn dibynnu'n drwm ar arweinyddiaeth unigolion allweddol ym mhob sector. Ystyried sut gallai polisïau cymunedau a chyngor Llywodraeth Cymru gefnogi cynaliadwyedd partneriaethau o'r fath i'r dyfodol, ac yn enwedig cefnogi'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr cymunedol. **[Adrannau 4; 5.3; 5.4; 5.5; 6.4; 6.7; 7.4]**

9. Ystyried cyllido ymchwil ychwanegol sy'n archwilio rôl cymunedau lle, diwylliant ac iaith o ran sut mae pobl yn gofyn am ac yn cael cymorth a chyngor gyda phroblemau lles cymdeithasol cyfreithiol mewn cymunedau amrywiol ar hyd a lled Cymru. Dylid hefyd defnyddio'r ymchwil, ac ymchwil feintiol, i lywio datblygu polisïau ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau cynghori. **[Adrannau 6.6; 7.1; 7.5; 7.8]**

## BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNYS MÔN A GWYNEDD

**10.** Ystyried cyfraniad gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Ynys Môn a Gwynedd. Ystyried y rolau pwysig y sectorau cyngor a chymunedau i gefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi cydweithio ar draws darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn lleol. **[Adrannau 5, 6 and 7]**

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

**11.** Er bod Rhwydweithiau Cynghori Rhanbarthol yn ffynhonnell bwysig o ddysgu a gwaith partneriaeth, dylid ystyried hwyluso'r gwaith o ddatblygu Partneriaeth Cyngor a Gwybodaeth Gymunedol Ynys Môn, gan ddod â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus allweddol, y sector cynghori a mudiadau cymunedol sy'n gweithredu ar Ynys Môn at ei gilydd. Nod y Bartneriaeth Cyngor a Gwybodaeth Gymunedol fyddai rhannu gwybodaeth am wasanaethau, helpu atgyfeiriadau, a sicrhau ymateb cydlynol i broblemau a rennir, gan gynnwys problemau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Byddai'r Bartneriaeth Cyngor a Gwybodaeth Gymunedol hefyd yn fforwm i rannu'r arferion gorau am ymgysylltu â chymunedau amrywiol ar Ynys Môn. **[Adrannau 5.3; 5.4; 7.2; 7.4; 7.5]**

**12.** Parhau i gefnogi darparu adnoddau i wasanaethau sy'n cael eu darparu gan fudiadau ar draws Ynys Môn sy'n seiliedig ar le, sy'n sensitif yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol er mwyn atal problemau lles cymdeithasol rhag digwydd neu waethygu. **[Adrannau 4.2; 5.2; 5.3; 6.4; 6.7; 7.1; 7.2; 7.4]**

**13.** Parhau (yn ariannol ac anariannol) i gefnogi cread a chynnal canolbwyntiau cymunedol. **[Adrannau 4.2; 5.3; 6.4; 6.7; 7.1; 7.2]**

**14.** Sicrhau bod polisïau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymunedau a chyngor, yn cydymffurfio â manylion ac ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig darpariaethau am bwysigrwydd atal; mae helpu pobl i gael gafael ar y cymorth iawn ar yr adeg iawn yn hanfodol i atal problemau rhag digwydd a/neu waethygu. **[Adrannau 5.1; 7.3]**

**15.** Ystyried canfyddiadau'r ymchwil hwn ar yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n gofyn am wybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, neu sy'n ceisio cysylltu â'r Cyngor, sydd naill ai'n methu cyfathrebu ar-lein neu'n mae'n well ganddynt beidio â gwneud hynny. **[Adrannau 6.7; 7.1; 7.7]**

## DARPARWYR CYNGOR A MUDIADAU CYMUNEDOL

**16.** Parhau i gynnal a datblygu partneriaethau rhwng mudiadau'r sector cynghori a chymunedau sy'n gweithio ar Ynys Môn. Rhannu'r arferion gorau o ran sut mae perthnasoedd yn cael eu datblygu a'u cynnal. **[Adrannau 4.2; 5.3; 5.4; 5.5; 7.4; 7.6]**

**17.** Parhau i hwyluso a datblygu allgymorth gwledig a chydleoli gwasanaethau cymunedol a chyngor go iawn, lle bo hynny'n briodol. **[Adrannau 5.3; 6.4; 6.7; 7.6]**